Cyngor Cymuned Buan

Cynllun Hyfforddiant

Mae'n ddyletswydd ac yn fater o gyfraith o dan Adran 67 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021 i Gyngor Cymuned Buan ystyried hyfforddiant i bob aelod o'r cyngor yn cynnwys y Cynghorwyr a'r Clerc.

Pwrpas y Cynllun Hyfforddiant yw sicrhau bod Cynghorwyr a'r Clerc gyda'i gilydd yn meddu ar y wybodaeth a'r ymwybyddiaeth sydd eu hangen er mwyn i'r Cyngor weithredu yn effeithiol. Nid oes angen i bob Cynghorydd a Chlerc fod wedi derbyn yr un hyfforddiant a datblygu'r un arbenigedd.

Bydd pob Cynghorydd yn cael cynnig y cyfle i fynychu cyfleoedd hyfforddi a datblygu perthnasol. Mae Un Llais Cymru yn darparu gwybodaeth yn fisol o'u cyrsiau, ac mae'r rhain yn cael eu dosbarthu i bob aelod o'r Cyngor. Mae cyrsiau yn cael eu cynnig ar lein ac ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae pob Cynghorydd yn cael y fersiwn ddiweddaraf o'r "Canllaw Cynghorydd Da" a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a ddylent ymgyfarwyddo â'i gynnwys. Yn ogystal, bydd y Clerc yn cael y cyfle i fynychu'r cyrsiau a gynnigir gan Gymdeithas y Clercod (SLCC) a bydd aelodaeth y Clerc o'r SLCC yn cael ei dalu gan y Cyngor.

Bydd y Clerc yn gyfrifol am:-

- Gylchredeg unrhyw wybodaeth am gyrsiau addas ac yn awgrymu cyrsiau perthnasol i aelodau'r Cyngor
- Cadw cofnod o'r cyrsiau a fynychwyd yn flynyddol

Bydd pob cwrs hyfforddi yn cael ei gyfeirio i wella sgiliau pob unigolyn sy'n cymryd rhan. Dyma'r cynllun hyfforddi cyntaf a luniwyd gan Gyngor Cymuned Buan ac i ddechrau bydd yn cael ei ddiweddaru a'i newid i ddiwallu anghenion hyfforddi a fydd yn dod i'r amlwg.

Mae'r cyrsiau sylfaenol y dylai pob cynghorydd eu cwblhau yn cynnwys :

- Cynllunio
- Côd ymddygiad ar gyfer y cynghorwyr

- Rheolaeth ariannol a llywodraethu
- Anwytho sylfaenol i gynghorydd newydd
- Bioamrywiaeth

Caiff pob cynghorwr y cyfle i fynychu cwrs hyfforddiant. Mae'r Cyngor wedi neilltuo arian i sicrhau y bydd pob cynghorydd yn gallu mynychu cwrs yn rhad ac am ddim.

Y Cynllun

- Cynghorwyr Newydd – I fynychu modiwl Cynghorwyr newydd Un Llais Cymru o fewn blwyddyn i'w hethol.
- Pob Cynghorydd – i fynychu modiwl hyfforddiant Côd Ymddygiad Un Llais Cymru – o fewn dwy flynedd i'w hethol.
- Anogaeth i bob Cynghorydd i fynychu cyrsiau priodol Un Llais Cymru.
- Cadeirydd newydd y Cyngor – modiwl Sgiliau Cadeirio Un Llais Cymru – o few blwyddyn i'w hethol.
- Clerc – Hyfforddiant Parhaus Proffesiynol – mynychu cynadleddau, semniarau, cyrsiau hyfforddiant, digwyddiadau'r sector – pob blwyddyn yn ôl y galw.

Mabwysiadwyd – Dyddiad : …… 12 Mehefin 2025.

Hughie Williams

Llofnod y Cadeirydd: ……..

Nia Jane Owen-Midwood

LLofnod y Clerc:……..

Cynllun Hyfforddiant – Cyngor Cymuned Buan

Enw'r Unigolyn	**Swydd**	**Teitl Hyfforddiant**	**Dyddiad Mynychwyd**
Nia Jane Owen-Midwood	Clerc	Cyfarfod y Cyngor (The Council Meeting – Module 5)	11/02/2025
Hughie Williams	Cadeirydd	Côd ymddygiad ar gyfer y cynghorwyr	12/02/2025
Tesni Jones	Cynghorydd	Côd ymddygiad ar gyfer y cynghorwyr	12/02/2025